# Darparu cyngor arbenigol i reoli digwyddiadau tân ac achub

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â darparu cyngor arbenigol yn ystod digwyddiadau tân ac achub.

Mae'r safon hon yn edrych ar yr wybodaeth a'r sgiliau y bydd angen i chi eu defnyddio i reoli tanau oddi mewn i'ch arbenigedd eich hun.  Gall tân gael effaith sylweddol, ac felly bydd angen i chi gyfathrebu'n effeithiol er mwyn sicrhau bod pawb yn derbyn gwybodaeth reolaidd ac yn ddiogel.

Rydym yn argymell y safon hon ar gyfer y rhai sy'n darparu cyngor arbenigol ar gyfer digwyddiadau tân ac achub.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. casglu gwybodaeth ar gyfer digwyddiadau tân ac achub o fewn eich maes arbenigedd, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
2. nodi a chynnal ymwybyddiaeth o risg ar gyfer digwyddiadau tân ac achub oddi mewn i'ch maes arbenigedd, yn unol â phrosesau asesu risg
3. nodi mesurau rheoli i leihau risgiau tân ac achub yn unol â phrosesau asesu risg
4. asesu'r ffactorau sy'n effeithio ar ddigwyddiadau tân ac achub ar gyfer eich maes arbenigedd, ac yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
5. cysylltu ag eraill i drafod manylion yr hyn a gynhwysir mewn cynlluniau tactegol, gan gynnwys yr wybodaeth sydd ar gael, yn unol â gofynion eich sefydliad
6. llunio cynlluniau tactegol diogel ar gyfer digwyddiadau yn eich maes arbenigedd, yn unol â gofynion eich sefydliad
7. gweithredu cynlluniau tactegol diogel ar gyfer digwyddiadau yn eich maes arbenigedd, yn unol â gofynion eich sefydliad
8. nodi tactegau sy'n caniatáu dulliau rheoli effeithiol yn unol â gofynion eich sefydliad
9. monitro ac adolygu cynlluniau tactegol yn barhaus, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
10. rhoi gwybod am newidiadau i gynlluniau tactegol i'r bobl eraill sy'n berthnasol, yn unol â gweithdrefnau cyfathrebu eich sefydliad
11. cynnal eich diogelwch a'ch lles eich hun ac eraill yn ystod digwyddiadau tân ac achub, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer gweithio'n ddiogel

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwysigrwydd cynnal eich diogelwch a'ch lles eich hun ac eraill yn ystod digwyddiadau tân ac achub
2. ffactorau sy'n effeithio ar les personél yn ystod ymateb tân ac achub
3. arferion gwaith diogel eich sefydliad wrth ymateb i ddigwyddiadau tân ac achub
4. peryglon a risgiau digwyddiadau tân ac achub sy'n effeithio ar bobl, eiddo a'r amgylchedd
5. sut mae defnyddio gwybodaeth asesu risg i wneud penderfyniadau
6. sut mae rhoi penderfyniadau ar waith ar sail yr asesiad risg
7. mesurau rheoli eich sefydliad i liniaru risg
8. systemau cyfathrebu a rheoli digwyddiadau a ddefnyddir yn ystod digwyddiadau tân ac achub
9. deddfwriaeth, polisïau, gweithdrefnau, canllawiau a phrotocolau sy'n berthnasol i'ch rôl
10. sut mae defnyddio systemau, offer, dulliau a thempledi sydd ar gael i helpu gyda'r broses gynllunio
11. eich rôl a'ch cyfrifoldebau wrth ymateb i ddigwyddiadau tân ac achub, gan gynnwys eich maes cyfrifoldeb daearyddol
12. pobl eraill perthnasol y gallech weithio gyda nhw, eu rôl a'u cyfrifoldebau
13. llinellau a dulliau cyfathrebu ac adrodd yn y gweithle
14. sut mae cyfathrebu'n eglur ac yn effeithiol gydag eraill
15. sut mae trin eraill â pharch ac ystyriaeth, gan roi sylw i amrywiaeth a'i dderbyn
16. pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol gydag eraill yn ystod digwyddiadau tân ac achub
17. sut mae defnyddio dulliau rheoli digwyddiadau sy'n berthnasol i ddigwyddiadau tân ac achub
18. sut mae cyrchu a defnyddio gwahanol ffynonellau o wybodaeth sy'n berthnasol i ddigwyddiadau tân ac achub oddi mewn i'ch maes arbenigedd
19. sut mae llunio cynlluniau tactegol oddi mewn i'ch maes arbenigedd
20. yr adnoddau sydd ar gael i ymateb i ddigwyddiadau tân ac achub
21. pwysigrwydd dyrannu personél i dasgau yn unol â lefel eu profiad, eu galluoedd a'u gwybodaeth

22. tactegau a dulliau cyfyngu, defnydd diogel ohonynt, a'u heffaith ar reoli digwyddiadau tân ac achub

## Cwmpas/Ystod